

## CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

### Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 10fed o Fawrth 2021 am 7.30 o'r gloch drwy gyfrwng zoom.

**Presennol;** Cyng. Berwyn Hughes (ymuno ail hanner y cyfarfod) Cyng. Hedd Pugh, Idris Jones, John P Jones, Catrin Jones, Arfon Hughes, Berwyn Harding, Robin Hughes, Geraint Morgans, John P Roberts (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan yr Is-Gadeirydd y Cynghorydd Hedd Pugh. Roedd ymddiheuriad gan y Cyng Sion Alun Roberts.
2. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod diwethaf a gyfarfu ar y 27ain o Ionawr drwy gyfrwng zoom fel rhai cywir ar gynnis Cyng. Berwyn Harding a'i eilio gan Cyng. Catrin Jones. Mynegodd y Cyng Arfon Hughes ei anfodlonrwydd am gofnod 7 l) – sef nad oedd yn adlewyrchiad cywir o'r drafodaeth yn ei farn ef, - lle cofnodwyd nad oedd ef wedi rhoi poster o flaen y Neuadd yn y Dinas. Dywedodd Arfon nad oedd unrhyw gynghorydd arall ychwaith yn fodlon gosod posteri i fyny ar hysbysfyrddau'r Cyngor yn nodi cyfarfodydd y Cyngor. Cynigiodd Arfon fod rhaid newid hyn, ond ni chafwyd eilydd. Roedd cofnodion 27.01.21 felly yn cael eu cadarnhau. Gofynnwyd i'r Clerc am gadarnhau y trefniadau o ram hysbysu cyfarfodydd. Nododd y byddai manylion cyfarfodydd ar ein gwefan a'r Blewyn Glas dros y cyfnod presennol, ac wedi codi'r cyfyngiadau y byddai ef (yn goystal a hyn) yn rhoi poster o flaen y Neuadd (fel sydd wedi digwydd ar hyd yr amser) , ond hefyd dosbarthu poster i'r holl Gynghorwyr yn ol yr arfer. Cyfeiriwyd at y posibilrwydd o recordio cyfarfodydd yn y dyfodol, a gwelwyd fod rhaid trafod hyn eto.
3. Materion yn codi;
  - a) **Materion Priffyrdd** – adroddwyd fod yr ymatebion wedi eu danfon ymlaenllaw i'r Cynghorwyr, gan gynnwys materion cefnffyrdd a'r ymateb i'r ymholiadau am doiledau Dinas.
  - b) **Mynwentydd yr ardal** – yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, ail-adroddwyd enwau y cerrig oedd yn gwyro ym mynwent Dinas. Gwelwyd y byddai rhaid trafod y tro nesaf.
  - c) **Pwyllgor yr Hen Fynwent** – roedd y Cyng. Berwyn Hughes yn parhau gyda'r gwaith yma, a byddai yn adrodd yn y cyfarfod nesaf.
  - d) **Enwau lleoedd** – roedd y Clerc wedi cylchredeg e-bost gan Gwyneth Lewis o Gyngor Gwynedd yn adrodd y sefyllfa. Yn achos yr enwau llefydd yroedd ef wedi eu danfon iddi, nid oedd ceisiadau swyddogol wedi ei dderbyn i'r Cyngor. Roedd yn nodi hefyd nad oedd unrhyw bwerau ganddynt i wrthod enwau saesneg nac i orfodi defnyddio enwau cymraeg . Dywedodd y Cyng. J P Roberts (Cyngor Gwynedd) fod y Parc Cenedlaethol yn edrych i mewn i'r mater yma.
  - e) **Materion Cyllid – cyfraniadau blynyddol i'r Neuaddau.** Adroddodd y Clerc sefyllfa ariannol y Cyngor, gan gynnwys anfonebau i'w talu, a'r costau yn fras sydd yn gwynebu y Cyngor cyn diwedd y flwyddyn ariannol, (gan gynnwys anfoneb 'EW Owen a'i chwmni' am waith RTI a P60 – gweler isod) gan gofio hefyd geisiadau a oedd wedi eu cylchredeg i'r Cynghorwyr i'w trafod mewn eitem nes ymlaen yn y cyfarfod. Cynigiodd Geraint Morgans a'i eilio gan John P Jones i gyfrannu £1000 i neuadd Dinas a £500 i Neuadd Aberangell fel ag a wnaethpwyd yn 2020. Cynigiodd Cyng Arfon Hughes welliant, sef cyfrannu

£500 yr un i Neuadd Dinas ac Aberangell, ond ni chafwyd eilydd. Cadarnhawyd gyfraniadau i'r neuaddau felly fel 2020.

Wrth drafod yr eitem yma, cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Cyng Hedd Pugh a Catrin Jones yng nghyswllt Dinas, a Cyng Berwyn Harding yng nghyswllt Aberangell.

#### **4.Materion Cynllunio.**

Roedd un cais wedi eu danfon allan i'r Cynghorwyr ers y cyfarfod diwethaf, sef;

***NP5/74/486A – Adeiladu trac mynediad a pont mewn perthynas a rheolaeth coedwigaeth i gynnwys cynaeafu (ail-gyflwyniad) - Coetir Nantyrnog, Dinas Mawddwy.***

Roedd 3 Cynghorydd wedi ymateb. Nid oedd gwrthwynebiad, gan fod y ffordd a'r bont yn hwyluso gallu cynaeafu coed, a chadw dwr budr o'r afon.

#### **5. Materion Cyllid.**

Nodwyd lythyrau diolch gan Ambiwlans Awyr Cymru a Cylch Meithrin Dolybont.

Yn dilyn y drafodaeth yn 3(e) uchod, cytunwyd i dalu anfoneb E W Owen a'i Chwmni am £216. Hefyd rhoddwyd caniatad i'r Clerc i dalu anfonebau am y biniau halen a llenwi y biniau, ynghyd ag Aelodaeth Un Llais Cymru – nodwyd yn fras y symiau yma. (hefyd roedd halen ychwanegol wedi ei archebu i fin halen ger Penrhiwcul, a Rhiw Ysgubor ucha, ger Tyucha Mallwyd.

Roedd ceisiadau am arian i law gan Gwawr Davalan, ac atgoffwyd pawb ein bod wedi cytuno i'r gwariant yma yn y cyfarfod diwethaf, a'u clustnodi ar gyfer 2021-22, sef Eisteddfod y Groglith (£300) a Adran yr Urdd Dinas Mawddwy (£400)

Adroddodd y Clerc fod 3 cais am arian wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr ymlaenllaw – a chytunwyd fel a ganlyn;

**Macmillan Cancer Support - £100** – cynigiwyd gan Idris Jones a'l eilio gan John P Jones.

**NSPCC** – penderfynwyd peidio cyfrannu.

**Cwmni Nod Glas** – cais am swm o £1400 oherwydd costau ychwanegol yng nghyswllt rampiau Pont Dolybont. Cyn mynd ymlaen efo'r drafodaeth, cafwyd mynegiant diddordeb gan y Cyng Hedd Pugh, John P Jones a Arfon Hughes, a gadawsant y cyfarfod. (Hefyd, roedd e-bost i law gan y Cyng. Berwyn Hughes yn datgan diddoerdeb gan ei fod yn helpu gyda'r prosiect llwybrau)

Cyn mynd ymlaen efo'r drafodaeth, gofynnwyd i'r Cyng Catrin Jones i Gadeirio. Trafodwyd mai ychydig o arian oedd gan y Cyngor o ystyried y gwariant uchod, a paham na ofynnwyd am gyfraniad yn hytrach na'r cyfanswm i gyd. Gwelwyd fod angen mwy o wybodaeth. Mewn ateb i hyn, adroddodd y Cyng John P Roberts ychydig o'r cefndir, sef bod angen swm o arian oherwydd gwaith ychwanegol. Roedd hyn yn £1000, a bod costau prisio yn £400. Gofynnwyd paham nad oedd 'contingency' ar gyfer hyn, ac atebwyd fod grant penodol wedi ei roi. Gofynnwyd hefyd paham nad oedd hyn wedi ei ragweld a'i gymryd i ystyriaeth i ddechrau, oherwydd na ddylid mynd

ar dir neb heb ganiatad. Cynigiodd y Cyng Idris Jones y dylid rhoi cyfraniad, ond ni chafwyd eilydd. Yna ar gynnig Berwyn Harding a'l eilio gan Geraint Morgans, penderfynwyd y dylid ymateb drwy ofyn am fwy o wybodaeth.

.....

Adroddodd y Clerc fod hawl gan Gynghorwyr hawlio £150 yn flynyddol tuag at eu Gwaith fel Cynghorwyr. Dyweodd Cyng Arfon Hughes ei fod am hawlio hyn y tro hwn.

**Costau a chydabyddiaeth y Clerc** - dywedodd y Clerc y dylai y Cyngor ystyried y gydnabyddiaeth yng nghyswllt rhicyn cyflogau NALC – ond nad oedd y graddau wedi eu cyhoeddi eto am 2021-22. Gadawodd y Clerc y cyfarfod pan drafodwyd hyn. (yn dilyn dychweliad y Clerc l'r cyfarfod, cyhoeddwyd y penderfyniad i adael hwn tan y tro nesaf)

## 6. Gohebiaeth.

- a) Cyfeiriwyd at e-bost gan Wyn a Helen Lewis, Llety'r Plas yn mynegi pryder am y defnydd o gomin Dolybont fel lle i wersylla/campio a'r pryder am sbwriel a wast corfforol sydd ar lan yr afon, a difrod gan gerbydau ar y comin. Roedd yn gofyn a oedd modd rhwystro cerbydau yno. Hefyd roedd e-bost gan Mair Tomos Ifans, Isfoel yn mynegi pryder am garafannau/faniau/loriau sydd yn parcio a chysgu dros nos ar Lawnt y Plas, gan gyfeirio hefyd at Dolybont. Roedd yn mynegi pryder am gamdefnydd y manau yma, ac y dylem fod yn annog defnydd o feysydd carafannau/ gwersylla sydd gennym. (Cafwyd mynegiant diddordeb gan y Cyng Hedd Pugh a gadawodd y cyfarfod. Cymerwyd y gadair gan Cyng Berwyn Hughes tan ddiwedd y cyfarfod)  
Penderfynwyd y dylid i ddechrau gael y polion wedi eu trwsio, a rhoi y barrier yn ol. Adroddwyd fod yna wefan yn nodi fod Lawnt y Plas yn lle i aros yn rhad ac am ddim – a oedd yn annerbyniol. Gwelwyd fod rhaid cael arwyddion yno ac yn Dolybont. Awgrymwyd y dylai tua 3 o Gynghorwyr gyfarfod ar y safle i drafod y sefyllfa.
- b) Roedd llythyr i law yn nodi fod cais cynllunio Dylan ag Elen, Tyncelyn Dinas Mawddwy i godi ty ger y fynwent (a wrthodwyd gan y Parc Cenedlaethol) wedi myd i apel. Roedd llythyr cefnogaeth wedi ei ddanfôn gan y Clerc ers y cyfarfod diwethaf.
- c) Nodwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd ynglyn a darpariaeth Toiledau Cyhoeddus Dinas Mawddwy yn dweud na fyddent yn danfôn cytundeb newydd yn flynyddol gan nad oes newid i'r cytundeb presennol.
- d) Nodwyd ymgynghoriad y Parc Cenedlaethol ynglyn a Canllaw Cynllunio Drafft (Cynllun Datblygu Lleol Eryri) Cynllunio a'r iaith Gymraeg/ Byddai'r Clerc yn danfôn y linc – gyda dyddiad cau 26ain o Fawrth

## 7. Unrhyw Fater arall.

- a) Adroddwyd fod angen danfôn llythyr i gadarnhau penodiad Archwilydd mewnol ar gyfer 2021-22 – a chadarnhawyd danfôn i Uned Archwilio Cyngor Gwynedd yn ol yr arfer.
- b) Atgoffwyd pawb fod Cofrestr Buddiannau pob Cynghorydd ar y wefan, ac os oedd angen diweddarau y manylion yna dylid cysylltu a'r Clerc.
- c) Roedd twll yn un o'r biniau sbwriel yn Abercywarch.

- d) Roedd cwynion unwaith yn rhagor am loriau casglu deunydd ail-gylchu yn colli ychydig o'u llwyth - a bod hyn yn broblem mewn sawl ardal o fewn y cylch. Hefyd roedd hen arwyddion ffordd wedi eu gadael. Yn y cyswllt hwn diolchwyd i bawb oedd wedi cynorthwyo yn casglu sbwriel yn ddiweddar – roedd 40 o fagiau wedi eu hel.
- e) Roedd rhodedendron yn tyfu ar derfyn mynwent Dinas, ac angen sylw. Cynigiod y Cyng Catrin Jones y byddai hi ac Andrew yn trefnu hyn.
- f) Roedd llawer o sbwriel wedi ei ganfod tu ol i'r tai yn Mallwyd.
- g) Cyfeiriwyd unwaith eto at y gwaith sydd ei angen yn arhosfan bws Mallwyd.
- h) Adroddwyd fod gwaith wedi ei gwblhau ar y maes parcio yn y Plas yn Dinas.
- i) Roedd cwynion difrifol am ddiffygion yn gwasanaeth band eang mewn sawl rhan o fewn pentref Dinas/Minllyn, ac angen cysylltu efo BT Openreach.
- j) Adroddwyd fod y llinellau ffordd wedi eu gwneud ger y Ganolfan Arddio, a bod hyn yn welliant mawr.
- k) Roedd draens wedi blocio rhwng Dolobran a Wern Ddu, ac angen sylw
- l) Adroddodd John P Roberts fod y gwaith rhwng Brynuchaf a Pennant wedi ei ddatrys. Hefyd adroddodd fod treth Cyngor Gwynedd wedi codi 4.7%.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; CYFARFOD BLYNYDDOL NOS FERCHER Y 26ain o 10fed o Fai 2021. ( mwy o fanylion yn nes i'r amser gan y Clerc)**

**Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.30yh.**